# POWELL, WILLIAM ('Gwilym Pennant '; 1830 - 1902), bardd

**Enw:** William Powell
**Ffugenw:** Gwilym Pennant
**Dyddiad geni:** 1830
**Dyddiad marw:** 1902
**Priod:** Powell (née Jones)
**Priod:** Mary Powell (née Theodore)
**Rhiant:** Catrin Powell
**Rhiant:** Ellis Powell
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** bardd
**Maes gweithgaredd:** Eisteddfod; Barddoniaeth
**Awdur:** Thomas Isfryn Jones

Ganwyd fis Awst 1830 yn Tai Duon, Dolbenmaen, Sir Gaernarfon, yn fab i Ellis a Chatrin Powell. Bu'n gweithio mewn chwareli llechi yn Llanberis hyd 17 Ebrill 1852, pryd y symudodd i Lundain yn dorrwr cerrig beddau, etc. Ysgrifennai bob ffurf ar farddoniaeth, a chyhoeddwyd ei waith yn *Y Faner*, *Yr Herald*, a chylchgronau eraill. Yr oedd yn gystadlydd brwd mewn eisteddfodau, ac enillodd fedalau arian yn eisteddfod genedlaethol Llandudno (1864), ac yn Abertawe (1863) a Llangefni. Ef oedd y pumed yng nghystadleuaeth y gadair ym Merthyr Tydfil (1888). Priododd (1), Mary Theodore, Llanfair Caereinion, a ganed iddynt bump o blant; a (2), 1895, - Jones o Westminster. Bu farw 16 Gorffennaf 1902, a chladdwyd yn Lundain.

## Awdur

**Thomas Isfryn Jones**

## Ffynonellau


*Kelt Llundain*, Gorffennaf, 1903

*Bye-Gones, relating to Wales and the Border Counties*, 1902

J. Jones ('Myrddin Fardd'), *Enwogion Sir Gaernarfon* (1922)


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q28361344


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu